



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Y Prif Swyddog Meddygol

Diweddariad 98 : Mawrth 2020



Croeso i'r rhifyn diweddaraf hwn ar faterion a fydd o ddi-ddordeb i gydweithwyr sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal drwyddo draw. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i bawb sydd wedi bod yn darparu gwasanaethau i gleifion ac i'n cymunedau dros fisoedd anodd y gaeaf; rwy'n cydnabod bod meddygfeydd ac ysbytai fel ei gilydd wedi cael eu hystemyn eleni ac wrth ymweld â chyfleusterau iechyd ledled Cymru rwyf bob amser yn cael fy ysbrydoli gan ofal a thosturi ein staff yn eu gwaith hyd yn oed pan fyddwn yn wynebu amgylchiadau llai na delfrydol.

Rwy'n ddiolchgar hefyd i bawb am eu hymdrechion i baratoi ein system at fygythiad y Coronafeirws Newydd (COVID-19) a gychwynnodd yn

Tsieina ddechrau'r flwyddyn. Yn gynharach y mis hwn, fe wnes i gadarnhau ein hachos cyntaf yma yng Nghymru-rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi bod yn cynllunio ar ei gyfer ers nifer o wythnosau. Byddwn yn parhau i wneud popeth yn ein gallu i wneud yn siŵr bod achosion sy'n cyrraedd y wlad hon yn cael eu canfod yn gynnar a'u hynysu er mwyn osgoi lledaeniad pellach. Bellach, fodd bynnag, mae angen inni ddatblygu a phrofi cynlluniau cadarn ar gyfer rheoli epidemig posibl yn y DU. Byddaf yn parhau i ddarparu gwybodaeth a diweddariadau wrth i'r sefyllfa ddatblygu, ond mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael yn: www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-information-for-the-public

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am y cynnwys neu awgrymiadau ynglŷn ag erthyglau/pynciau mae croeso i chi anfon e-bost ataf: PSChiefMedicalOfficer@llyw.cymru

Diolch i chi am eich gwaith cyson yn cefnogi iechyd a llesiant pawb yng Nghymru.

Frank Atherton

Prif Swyddog Meddygol Cymru

Yn y rhifyn hwn:

Clefydau anadlol yn ystod y gaeaf a'r llwybr i'w ddilyn pan fo Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) yn gwaethygu	2
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020	2
Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariad ar gamau i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru	3
Pwysau Iach: Cymru Iach – Cynllun Cyflawni 2020-2022	4
Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)	5
e-Lyfrgell Iechyd GIG Cymru	5
Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)	6

Clefydau anadlol yn ystod y gaeaf a'r llwybr i'w ddilyn pan fo Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) yn gwaethygu

Mae'r Grŵp Gweithredu Iechyd Anadlol wedi cyhoeddi canllawiau a chymorth ar gyfer byrddau iechyd i reoli clefydau anadlol yn ystod y gaeaf; gan gynnwys llwybr i'w ddilyn pan fo Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) yn gwaethygu sy'n cael ei brofi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y cyd ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r canllawiau ar gynllunio ar gyfer clefydau anadlol yn ystod y gaeaf ar gael yma: www.clinicalscience.org.uk/the-nhs-wales-respiratory-winter-plan/

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r cynllun prawf ar gyfer llwybr gwaethygu COPD ar gael yma: www.clinicalscience.org.uk/national-pathway-to-prevent-unnecessary-admissions-to-hospital-for-copd/

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried darpariaeth gwasanaethau fferyllol cymunedol a sut y gallai'r rhain ymateb yn well i anghenion pobl leol.

Yn ddiweddar, cwblhawyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Reoliadau drafft, a fydd yn dirymu ac yn disodli'r rheoliadau presennol, sef Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013.

Mae'r Rheoliadau yn llywodraethu'r modd y darperir gwasanaethau fferyllol ac, o Ebrill 2020 ymlaen, bydd yn gwneud sawl newid sylweddol i'r ffordd y mae byrddau iechyd yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau fferyllol yn eu hardal.

Mae'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi yma: llyw.cymru/rheoliadau-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gwasanaethau-fferyllol-cymru-2020

Roedd hi'n glir o'r adborth a gafwyd, mewn digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ogystal ag yn yr ymgynghoriad ffurfiol, fod llawer iawn o gefnogaeth i'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu yng Nghymru.

Serch hynny, roedd hi'n glir hefyd o'r ymatebion fod y cyfnod arfaethedig i fyrddau iechyd baratoi eu Hasesiad cychwynnol o Anghenion Fferyllol yn cael ei ystyried yn rhy fyr. Rydym felly wedi ymestyn y cyfnod hwn i ddeuddeg mis.

O 1 Ebrill 2021, rhaid i fyrddau iechyd fod wedi cyhoeddi eu Hasesiad o Anghenion Fferyllol ac, wedi hynny, bydd angen i geisiadau i agor fferyllfeydd newydd fodloni'r bwrdd iechyd eu bod yn diwallu angen a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Fferyllol.

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariad ar gamau i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru

Ar 13 Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, ddiweddariad ar gamau i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru. Yn y diweddariad, eglurodd y Gweinidog y dull cydweithredol a ddefnyddir gyda phartneriaid cyflawni ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a gwasanaethau cymorth cysylltiedig. Mewn dau fwrdd iechyd, mae dull yn cael ei dreialu sy'n ymchwilio i'r modd y gallai pobl â phroblemau

gamblo gael cymorth drwy wasanaethau'r GIG. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd ei fod wedi cymeradwyo gwerth £25,000 o gyllid, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, er mwyn i Brifysgol Abertawe sefydlu rhwydwaith i helpu i ddatblygu rhaglen ymchwil i gamblo yng Nghymru.

Mae'r Datganiad Ysgrifenedig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma:

llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-mynd-ir-afael-niwed-syn-gysylltiedig-gamblo-yng-nghymru

Pwysau Iach: Cymru Iach – Cynllun Cyflawni 2020-2022

Ar 6 Chwefror, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, Gynllun Cyflawni 2020-2022 Pwysau Iach: Cymru Iach, sy'n dilyn lansiad llwyddiannus Pwysau Iach: Cymru Iach ar 17 Hydref 2019.

Mae Pwysau Iach: Cymru Iach yn amlinellu cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru ar draws pedair thema: Amgylcheddau Iach, Lleoliadau Iach, Pobl Iach ac Arweinyddiaeth a Galluogi Newid.

Y cynllun cyflawni hwn, sef yr un cyntaf o bump a fydd yn cael eu cyhoeddi bob dwy flynedd, yw dechrau'r daith, gan ganolbwyntio'n arbennig ar blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae wyth Maes Blaenoriaeth Cenedlaethol wedi'u datblygu ar gyfer y Cynllun Cyflawni a fydd yn torri ar draws y pedair thema genedlaethol:

- 1: Newid yr amgylchedd bwyd tuag at ddewisiadau iachach.
- 2: Creu amgylcheddau a mannau egniïol i'n galluogi i symud mwy.
- 3: Datgloi'r potensial oddi mewn i'n hamgylchedd naturiol.
- 4: Datblygu ein hamgylcheddau dysgu i fod yn iach, yn egniïol ac i hyrwyddo llesiant emosiynol.

5: Sicrhau bod ein plant yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd a bod eu pwysau'n iach wrth ddechrau yn yr ysgol.

6: Mynd i'r afael â rhwystrau i wneud dewisiadau iach, a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

7: Darparu gwasanaethau cymorth teg i helpu pobl i gyflawni neu gynnal pwysau iach.

8: Datblygu system atal sy'n galluogi arweinyddiaeth ar bob lefel.

Mae'r Meysydd Blaenoriaeth yn amlygu newid yn ymddygiad ac arferion y boblogaeth, a fydd yn cael ei annog a'i hyrwyddo drwy leoliadau ac amgylcheddau ledled Cymru, a thrwy arweinyddiaeth leol a chenedlaethol. Mae'r Gweinidog yn cadeirio Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol, i oruchwylio cynnydd a darparu mecanwaith llywodraethu ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith. Cyfarfu'r Bwrdd hwn am y tro cyntaf ym mis Ionawr ac mae'n cynnwys partneriaid allweddol a fydd yn ddylanwadol yn llwyddiant Pwysau Iach: Cymru Iach.

Cewch wybod mwy am y cynllun cyflawni yn y fideo isod: llyw.cymru/pwysau-iach-cynllun-cyflawni-cymru-iach-2020-i-2022

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Cyflwynwyd y Bil yn y Cynulliad ar 17 Mehefin 2019 ac mae ar hyn o bryd yng Nghyfnod 3 proses graffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r trafodion nesaf wedi'u hamserlennu ar gyfer 10 Mawrth 2020.

Prif ddibenion y Bil yw:

- cryfhau'r ddyletswydd ansawdd bresennol sydd ar gyrff y GIG ac ymestyn hon i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd
- gosod dyletswydd gonestrwydd sefydliadol ar gyrff y GIG a darparwyr gofal sylfaenol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaethau pan aiff pethau o'u lle

- cryfhau llais dinasyddion, drwy ddisodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned gyda chorff newydd ar gyfer Cymru gyfan, sef Corff Llais y Dinesydd, a fydd yn cynrychioli buddiannau pobl ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol
- galluogi penodi Is-gadeiryddion ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG, yn yr un modd â byrddau iechyd.

I ddilyn hynt y Bil, gan gynnwys dolenni at y memorandwm esboniadol, sesiynau pwyllgorau, adroddiadau a gohebiaeth â'r Gweinidog, ewch ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=25475

e-Lyfrgell Iechyd GIG Cymru

Mae e-Lyfrgell Iechyd GIG Cymru yn darparu mynediad at ystod eang o gronfeydd data i ddiwallu anghenion y proffesiynau a'r arbenigedd amrywiol sydd yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru megis meddyginiaethau a therapïau, iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd teithio, bydwreigiaeth, deintyddiaeth, addysg a llawer mwy. O fis Ebrill 2020 ymlaen, ni fydd e-Lyfrgell Iechyd GIG Cymru yn darparu mynediad at TRAVAX* gan NHS Scotland yn dilyn adolygiad dwy flynedd o adnoddau gwybodaeth iechyd teithio.

* Cronfa ddata ryngweithiol yw TRAVAX – The A–Z of Healthy Travel sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am iechyd teithio ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Os oes gan eich gwasanaeth neu'ch adran ddolen at TRAVAX, nodwch, o fis Ebrill 2020 ymlaen, na fydd y ddolen hon yn gweithio mwyach a bydd angen ei newid i TravelHealthPro (travelhealthpro.org.uk/). Am ragor o wybodaeth ynghylch pam a sut y gwnaed y penderfyniad hwn, gweler yr eitem newyddion ar wefan GIG Cymru:

eli.gig.cymru/newyddion/newyddion-diweddaraf/tanysgrifiad-e-lyfrgell-gig-cymru-i-travax-yn-dod-i-ben-ym-mis-ebryll-2020/

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

Endocrine Management of Gender Dysphoria in Adults (Saesneg yn unig) awmsg.org/docs/awmsg/medman/Endocrine%20management%20of%20gender%20dysphoria%20in%20adults.pdf

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer ymarferwyr anarbenigol sy'n ymwneud â phresgripsiynu a monitro therapiau meddygol a ddefnyddir wrth reoli dysfforia rhywedd, gan gyfeirio at y Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd ar gyfer y Cynllun Triniaeth Hormonau ar gyfer Cleifion Trawsryweddol sy'n Oedolion yn y GIG yng Nghymru, a chefnogi'r Gwasanaethau hynny. Cymeradwyodd AWMSG y ddogfen hon ym mis Hydref 2019.

Medicines Identified as Low Priority for Funding in NHS Wales – Paper 1 (Update) (Saesneg yn unig) awmsg.org/docs/awmsg/medman/Medicines%20Identified%20as%20Low%20Priority%20for%20Funding%20in%20NHS%20Wales.pdf

Mae'r papur cyntaf, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Hydref 2017, yn y gyfres Blaenoriaeth Isel ar gyfer Cyllid yn GIG Cymru wedi'i ddiweddarau. Mae'r diweddariad yn cynnwys diwygiadau i'r adran ar liothyronine a data diweddar ynghylch gwariant ar feddyginiaeth a ddarperir mewn atodiad. Cymeradwyodd AWMSG y ddogfen ddiwygiedig hon ym mis Hydref 2019.

National Prescribing Indicators 2019-2020: Analysis of Prescribing Data to June 2019 (Saesneg yn unig) awmsg.org/docs/awmsg/medman/National%20Prescribing%20Indicators%202019-2020%20Analysis%20of%20Prescribing%20Data%20to%20June%202019.pdf

Mae'r papur hwn yn adrodd ar gynnydd byrddau iechyd o ran pob un o'r Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2019-2020, ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben fis Mehefin 2019. Yn unol â nod pob dangosydd, bu gwelliant yn y rhan fwyaf o'r Dangosyddion sydd â throthwy, o'u cymharu â'r chwarter cyfatebol yn y flwyddyn flaenorol (y chwarter a ddaeth i ben fis Mehefin 2018). Ni fu gwelliant yn y Dangosydd ar gyfer presgripsiynu gabapentin a pregabalin (2.44% o gynnydd) ac ni fu gwelliant o ran presgripsiynu cydwedd inswlin cyfnod hir mewn gofal sylfaenol (0.11% o gynnydd). Cyflwynwyd y ddogfen hon i AWMSG er gwybodaeth ym mis Rhagfyr 2019.

Cyngor AWMSG

Yn ddiweddar, mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wedi rhoi cyngor ar nifer o feddyginiaethau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r cyngor hwnnw. Os caiff meddyginiaeth ei hargymell gan AWMSG a'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r byrddau iechyd ddarparu cyllid o fewn dau fis i'r hysbysiad cadarnhau. Os nad argymhellir meddyginiaeth, ni ddylid ei rhoi ar bresgripsiwn fel mater o drefn o fewn GIG Cymru ar gyfer y cyflwr a nodir. Mae'r argymhellion canlynol gan AWMSG ar gael yn llawn ar wefan AWMSG: www.awmsg.org.

Rhif cyfeirnod AW TTC	Meddyginiaeth	Defnydd
Meddyginiaethau a argymhellir		
2406	diamorphine hydrochloride (Ayendi) 720 micrograms, 1,600 micrograms nasal spray	Treatment of acute severe nociceptive pain in children and adolescents 2 to 15 years of age in a hospital setting. Diamorphine hydrochloride nasal spray should be administered in the emergency setting by practitioners experienced in the administration of opioids in children and with appropriate monitoring. www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2406
3942	fampridine (Fampyra) 10 mg prolonged-release tablet	Improvement of walking in adult patients with multiple sclerosis with walking disability (Expanded Disability Status Scale 4–7). www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3942
3917	glecaprevir/pibrentasvir (Maviret) 100 mg/40 mg film-coated tablet	Treatment of chronic hepatitis C virus (HCV) infection in adolescents aged 12 to <18 years. www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3917
2127	glycerol phenylbutyrate (Ravicti) 1.1 g/ml oral formulation	Adjunctive therapy for chronic management of patients with urea cycle disorders including deficiencies of carbamoyl phosphate-synthase-I (CPS), ornithine carbamoyltransferase (OTC), argininosuccinate synthetase (ASS), argininosuccinate lyase (ASL), arginase I (ARG) and ornithine translocase deficiency hyperornithinaemia-hyperammonaemia homocitrullinuria syndrome (HHH) who cannot be managed by dietary protein restriction and/or amino acid supplementation alone. www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2127

Rhif cyfeirnod AW TTC	Meddyginiaeth	Defnydd
4130	zanamivir (Dectova) 10 mg/ml solution for infusion	<p>For the treatment of complicated and potentially life-threatening influenza A or B virus infection in adult and paediatric patients (aged ≥6 months) when:</p> <p>The patient's influenza virus is known or suspected to be resistant to anti-influenza medicinal products other than zanamivir, and/or other anti-viral medicinal products for treatment of influenza, including inhaled zanamivir, are not suitable for the individual patient. Zanamivir (Dectova®) should be used in accordance with official guidance.</p> <p>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/4130</p>
Argymhellir gyda chyfyngiadau		
4129	cefepime dihydrochloride monohydrate (Renapime) 1 g, 2 g powder for solution for injection/infusion	<p>Treatment of infections caused by bacteria that are cefepime-sensitive: lower respiratory tract infections, including nosocomial pneumonia and community acquired pneumonia, acute bacterial exacerbation of chronic bronchitis and secondary bacterial infection of acute bronchitis; uncomplicated and complicated urinary tract infections, including pyelonephritis; skin and subcutaneous infections; intra-abdominal infections, including peritonitis and biliary tract infections; gynaecological infections; bacterial meningitis in infants and children; in combination with other antibacterial agents in the management of neutropenic patients with fever that is suspected to be due to a bacterial infection; treatment of patients with bacteraemia that occurs in association with, or is suspected to be associated with, any of the infections listed above. Consideration should be given to official guidance on the appropriate use of antibacterial agents.</p> <p>www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/4129</p>

Rhif cyfeirnod AW TTC	Meddyginiaeth	Defnydd
4089	dupilumab (Dupixent) 200 mg, 300 mg solution for injection	Treatment of moderate-to-severe atopic dermatitis in adolescents ≥ 12 to < 18 years of age who are candidates for systemic therapy. www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/4089
Nid argymhellir		
3947	melatonin (Slenyto) 1 mg, 5 mg prolonged release tablet	Treatment of insomnia in children and adolescents aged 2-18 with Autism Spectrum Disorder (ASD) and/or Smith-Magenis syndrome, where sleep hygiene measures have been insufficient. www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3947

Yn absenoldeb cais gan y cwmni sydd â hawl i'w marchnata, ni ellir cymeradwyo'r meddyginiaethau canlynol i'w defnyddio o fewn GIG Cymru.

Rhif cyfeirnod AW TTC	Datganiadau Cyngor	Cwmni
3500	angiotensin II (Giapreza) 2.5 mg/ml concentrate for solution for infusion www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3500	La Jolla Pharmaceutical
2909	eculizumab (Soliris) 300 mg concentrate for solution for infusion www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2909	Alexion Pharma UK Ltd
2760	meropenem/vaborbactam (Vaborem) 1g/1g solution for infusion www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2760	Menarini Farmaceutica Internazionale srl

Rhif cyfeirnod AW TTC	Datganiadau Cyngor	Cwmni
2141	ramucirumab (Cyramza) 10 mg/ml concentrate for solution for infusion www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2141	Eli Lilly & Co Ltd
2451	talazoparib (Talzenna) 0.25 mg, 1 mg hard capsule www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2451	Pfizer Ltd
4404	treosulfan (Trecondi) 50 mg/ml powder for solution for injection/infusion www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/4404	medac GmbH

Cynhelir cyfarfod nesaf AWMSG ar 17 Mawrth 2020. Mae holl ddogfennau'r cyfarfod ar gael ar wefan AWMSG www.awmsg.org/awmsgonline/meetings_awmsg_2019.html cyn y cyfarfod.

Manylion cyswllt
Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol
 Llywodraeth Cymru
 Parc Cathays
 Caerdydd
 CF10 3NQ

Rhif ffôn: **03000 257028**
 E-bost: pschiefmedicalofficer@gov.wales



Dilynwch fi ar Twitter
@CMOWales